

# Allech chi redeg Clwb Menter?

jobcentreplus
canolfanbydgwaith

Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynnwys

**Beth yw Clybiau Menter?** 2

**Allech chi redeg Clwb Menter?**

1. Dod o hyd i leoliad 3
2. Dechrau arni 4
3. Paratoi rhaglen weithgarwch 4
4. Cael help gan sefydliadau a gwirfoddolwyr eraill 5
5. Paratoi cynllun marchnata lleol ar gyfer y clwb 5
6. Dod o hyd i aelodau drwy rwydweithiau eraill 6
7. Cynnal y Clwb Menter 6

**Ble i gael rhagor o help** 7

# Beth yw Clybiau Menter?

**Mae Clybiau Menter yn glybiau sy'n cael eu sefydlu a'u rhedeg gan fusnesau a phartneriaethau lleol i bobl sy'n ddi-waith ac sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain neu fod yn hunangyflogedig. .**

Byddant yn cefnogi'r cymorth a gynigir drwy'r Lwfans Menter Newydd.

## Beth yw Clwb Menter?

Gall Clybiau Menter fod yn wahanol iawn i'w gilydd, ond yn y bôn, maent yn darparu lle i bobl ddi-waith sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain gyfarfod, rhannu syniadau a chael cyngor arbenigol a chymorth gan bobl fusnes leol.

Ni fydd unrhyw ddau Glwb Menter yr un fath oherwydd dylent adlewyrchu anghenion yr aelodau a'u cymuned, ond gallent gynnig y gwasanaethau canlynol: y cyfle i rwydweithio ag entrepreneuriaid a phobl eraill sy'n hunangyflogedig; cyngor ariannol, cyfreithiol, ac sy'n ymwneud â'r farchnad a busnes; gwasanaethau swyddfa (gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd); a chyngor am fudd-daliadau a chymorth mewn gwaith.

Mae Clybiau Menter yn gwbl wirfoddol ond bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn eu hyrwyddo i gwsmeriaid sydd â diddordeb mewn hunangyflogaeth.

**Gwybodaeth gyfreithiol**

Mae Clybiau Menter yn sefydliadau preifat ac maent yn gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â'r broses o'u sefydlu a'u rhedeg, gan gynnwys:

- unrhyw broblemau neu gwynion am y Clwb Menter
- sicrhau bod y Clwb Menter yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, megis y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, Deddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data
- cynnal safonau iechyd a diogelwch unrhyw Glwb Menter
- cost unrhyw wiriadau, megis gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau na'r Ganolfan Byd Gwaith yn atebol am unrhyw faterion sy'n codi o Glwb Menter.

Canllaw yn unig yw'r ddogfen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ym mis Rhagfyr 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

# Allech chi redeg Clwb Menter?

**Os ydych yn ymrwymedig i gefnogi eich cymuned, gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cefnogol eraill ac yn teimlo y gallech helpu pobl leol sy'n ddi-waith, mae'n bosibl y gallech redeg Clwb Menter.**

Os ydych o'r farn bod gennych chi neu'ch sefydliad y sgiliau a'r profiad perthnasol i helpu pobl ddi-waith sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain, yna gallech sefydlu Clwb Menter. Efallai eich bod wedi bod yn ddi-waith eich hun neu wedi dechrau eich busnes eich hun neu efallai bod gan eich sefydliad brofiad o gefnogi pobl sydd yn y sefyllfa honno? Dylai Clybiau Menter ddiwallu anghenion pobl ddi-waith yn y gymuned. Bydd yr anghenion hyn yn amrywio o un ardal i'r llall. Gallai cyfuno arbenigedd presennol mewn cymuned helpu i nodi anghenion lleol a golygu bod Clwb Menter llwyddiannus yn datblygu.

Beth bynnag y credwch y gallech ei gyfrannu, mae cymryd rhan mewn Clwb Menter lleol yn cynnig y cyfle perffaith i rannu eich profiad a chefnogi eich cymuned. Mae rhannu dealltwriaeth ac adnoddau lleol yn ffordd wych o helpu pobl i ddechrau eu busnes eu hunain.

### Pam y dylwn sefydlu Clwb Menter?

Byddech yn helpu pobl leol i fod yn hunangyflogedig a gallech gael effaith gadarnhaol iawn ar eu bywydau hwy ac eraill drwy helpu eich cymuned leol i ddod yn fwy llewyrchus. Drwy roi cyn lleied â chwpl o oriau'r wythnos, gallech helpu pobl i weithio tuag at annibyniaeth ariannol drwy feithrin eu hyder a gwella eu siawns o sefydlu busnes llwyddiannus.

Gallai eich busnes elwa o greu cysylltiadau gyda busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu a chodi proffil eich busnes.

### Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor sylfaenol ar rai o'r camau y gallech eu cymryd i sefydlu Clwb Menter lleol effeithiol. Gan weithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill yn y gymuned, byddwch yn gallu penderfynu ar lawer o'r manylion i sicrhau bod y Clwb Menter yn diwallu anghenion y bobl leol.

Cofiwch mai dim ond awgrymiadau yw'r rhain ynghylch sut y gellid rhedeg Clwb Menter.

## 1 Dod o hyd i leoliad

Byddai lleoliad sy'n rhad ac am ddim yn berffaith. Dylai fod yn rhywle heb ormod o ymyriadau, megis adeilad cyhoeddus fel llyfrgell, canolfan gymunedol neu fan addoli. Gallai unrhyw le gydag ystafell/ardal o faint rhesymol fod yn addas.

Gallech hefyd ofyn i'r cyngor lleol neu gyflogwr lleol am gael defnyddio ystafell ar eu safle i gynnal eich cyfarfodydd. Dylech bwysleisio nad yw Clybiau Menter yn gwneud elw a'u nod yw darparu cymorth ychwanegol i geiswyr gwaith lleol, gan eu helpu i ddechrau eu busnes eu hunain. Efallai y byddwch hefyd am wneud rhywfaint o waith ymchwil ar gyflogwyr lleol i nodi a oes gan unrhyw rai ohonynt bolisïau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol neu a ydynt eisoes yn ceisio cefnogi'r gymuned. Gallai cefnogi Clwb Menter lleol gyd-fynd â'r math hwn o bolisi ac mae'n debygol mai'r cyflogwyr hyn fydd y rhai mwyaf parod i ymateb os gofynnir iddynt am gymorth.

Efallai y byddech am ystyried a fydd angen unrhyw offer TG arnoch wrth geisio dod o hyd i leoliad.

# Allech chi redeg Clwb Menter?

## 2 Dechrau arni

Ar y dechrau bydd cyfarfodydd rheolaidd yn bwysig i aelodau ac arweinwyr a byddant yn helpu i feithrin cydberthynas a gweithio fel tîm. Unwaith y bydd y Clwb Menter wedi'i sefydlu, gallai'r grŵp gyfarfod yn llai aml a defnyddio e-bost neu ffôn i gadw mewn cysylltiad.

Efallai y byddech hyd yn oed yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu fforwm ar-lein ar gyfer eich Clwb Menter er mwyn cadw mewn cysylltiad.

Gallai'r gwaith o gydlynu'r grŵp gynnwys trefnu cyfarfodydd, hyrwyddo'r Clwb Menter a chadw pethau i fynd. Gallai un person yn y grŵp fod yn gydgysylltydd neu gellid rhannu neu gylchdroi'r rôl.

## 3 Paratoi rhaglen weithgarwch

Bydd pob Clwb Menter yn gweithredu mewn ffordd arbennig yn ôl anghenion y gymuned y mae'n ei chefnogi. Bydd gweithio gyda phartneriaid a chyfranogwyr lleol yn eich galluogi i fanteisio ar ddealltwriaeth ac adnoddau lleol wrth ddatblygu Clwb Menter sy'n diwallu anghenion yr aelodau.

Dim ond rhywfaint o syniadau yw'r rhain ynghylch sut y gallech fod am redeg sesiwn Clwb Menter, ond cofiwch mai anghenion y cyfranogwyr a'r gymuned leol ddylai lywio'r ffordd y cânt eu rhedeg.

Dylai'r clwb gyfarfod er mwyn galluogi aelodau i rannu profiadau gyrfaoedd, a sgiliau ei gilydd, ac annog ei gilydd i roi eu syniadau busnes ar waith. Gellid strwythuro'r cyfarfodydd fel a ganlyn:

**Dechrau:** bydd yr aelodau yn treulio rhai munudau yn rhannu canlyniadau a chyflawniadau'r gwaith o gynllunio busnes neu ei gynnydd yn ystod yr wythnos flaenorol.

**Canol:** bydd yr aelodau yn gofyn am gymorth gan ei gilydd mewn meysydd penodol, a allai arwain at sesiwn â thema (e.e. cyllid, ysgrifennu cynllun busnes, gofynion cyfreithiol).

**Diwedd:** bydd pob aelod yn pennu nod i'w gyflawni erbyn y cyfarfod nesaf (e.e. gwaith ymchwil ar yr economi leol).

Dim ond un enghraifft o strwythur cyfarfod posibl yw hon. Bydd Clybiau Menter unigol yn datblygu eu strwythurau eu hunain a allai newid dros amser i adlewyrchu anghenion y cyfranogwyr. Mae amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau y gallech fod yn awyddus i'w hymgorffori yn eich Clwb Menter.

**Efallai yr hoffech drafod y pynciau canlynol:**

- Rheoli arian
- Gwerthu a marchnata
- Trethiant a Safonau Masnach
- Cael cyngor gan ymgynghorwyr a/neu sefydliadau arbenigol
- Pecynnau gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes
- Cyngor Busnes Cyffredinol fel ysgrifennu cynllun busnes

Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.busnes.cymru.gov.uk, yn ffynhonnell wybodaeth wych am ddechrau busnes a gallech gael syniadau ar gyfer sesiynau defnyddiol.

## 4 Cael help gan sefydliadau a gwirfoddolwyr eraill

Gallai meithrin cysylltiadau â sefydliadau eraill, darparwyr addysg a busnesau wella arlwy y Clwb Menter. Gallech gysylltu â rheolwyr sefydliadau lleol i weld p'un a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y Clwb Menter. Efallai y byddant yn gefnogol iawn o unrhyw fenter gweithredu cymdeithasol sydd wedi'i hanelu at gael pobl i mewn i hunangyflogaeth.

Gallai unrhyw bobl leol rydych yn eu hadnabod sydd â phrofiad proffesiynol neu brofiad busnes fod yn ddefnyddiol iawn wrth sefydlu'r Clwb Menter neu drwy fod yn siaradwyr gwadd neu drwy helpu yn y gwaith o gynllunio'r busnes, gwaith ymchwil a chyngor ariannol.

- Efallai y bydd busnesau lleol yn awyddus i gefnogi'r Clwb Menter, naill ai drwy ddarparu siaradwyr neu ystafell gyfarfod.

- Gallai Clybiau Menter eraill fod yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol hefyd a gallant hefyd eich helpu i ddatblygu un. Bydd rhannu arfer gorau yn cyfrannu at y broses o ddatblygu rhwydwaith cryf o Glybiau Menter.

## 5 Paratoi cynllun marchnata lleol ar gyfer y clwb

Ochr yn ochr â'r canllaw hwn mae rhai templedi a allai fod yn ddefnyddiol i hyrwyddo'r Clwb Menter.

- Mae ateb cadarnhaol i ddiweithdra lleol yn debygol o ddenu llawer o sylw gan y papurau newydd. Gallech siarad â newyddiadurwr yn eich papur newydd lleol, gan gynnwys y rhai am ddim, ynghylch yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni a rhoi digon o rybudd ymlaen llaw iddynt pan fyddwch yn lansio'r Clwb Menter. Gallai fod yn fuddiol awgrymu eu bod yn cyhoeddi'r stori ar yr un diwrnod y maent yn cyhoeddi hysbysebion swyddi gwag.

- Efallai y byddwch am ddefnyddio'r templed ar gyfer datganiad i'r wasg (a gyflenwir gennym), a meddwl mor eang â phosibl am ble y gallech ei anfon. Mae papurau newydd lleol, gan gynnwys y rhai am ddim, yn fan cychwyn da.

- Targedwch hysbysfyrddau a gwefannau lleol oherwydd gallent fod yn lle da i gyhoeddi gwybodaeth am eich Clwb Menter am ddim, ynghyd â hysbysfyrddau mewn siopau lleol ac archfarchnadoedd.

- Gallech feddwl am y lleoedd y gallai pobl ddi-waith ac sy'n ystyried dechrau eu busnes eu hunain fynd ac ystyried ceisio gosod eich deunyddiau cyhoeddusrwydd yn y lleoedd hynny. Bydd busnesau, llyfrgelloedd, siopau a siopau prydau ar glud lleol yn aml yn caniatáu i chi roi posteri i fyny am ddim os ydych yn rhedeg menter gymunedol.

# Allech chi redeg Clwb Menter?

## 6 Dod o hyd i aelodau drwy rwydweithiau eraill

Gall colli swydd hyd yn oed wneud i'r person mwyaf hyderus deimlo'n agored i niwed. Efallai na fydd ystyried hunangyflogaeth ac ymuno â Chlwb Menter yn rhywbeth hawdd i lawer o bobl. Mae annog pobl drwy rwydweithiau personol a rhwydweithiau busnes yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddenu cyfranogwyr i ddechrau.

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn hysbysu pobl, a allai gael budd yn eu barn hwy, o Glybiau Menter yn eu hardal felly bydd yn fuddiol cadw mewn cysylltiad â hwy ynghylch y manylion, fel lleoliad ac amseroedd. Hyd yn oed os bydd y Clwb Menter ond yn dechrau gydag ychydig o bobl, gallai dyfu'n raddol ar lafar gwlad a thrwy farchnata lleol parhaus. Gallai meithrin cysylltiadau â'r Ganolfan Byd Gwaith, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a sefydliadau lleol eraill ddarparu ffrwd gadarn o aelodau'r Clwb Menter.

Dylai'r gwasanaethau a gynigir gan Glybiau Menter lleol adlewyrchu'r galw yn y gymuned am y math hwn o gymorth. Bwriad Clybiau Menter yw darparu cymorth ychwanegol i'r hyn a gynigir yn barod gan y Ganolfan Byd Gwaith ac asiantaethau a sefydliadau eraill. Y nod yw cefnogi'r gymuned a diwallu ei hanghenion ac efallai y bydd y rhain yn newid dros amser.

### Clybiau Menter a'r Lwfans Menter Newydd

Bydd y Lwfans Menter Newydd a'r Clybiau Menter yn cefnogi cwsmeriaid sydd â diddordeb mewn bod yn hunangyflogedig neu ddechrau busnes.

Mae'r Lwfans Menter Newydd ar gael i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am chwe mis neu fwy a'i nod yw helpu pobl i ddechrau busnesau sydd â'r potensial i dyfu. Bydd mentor busnes ar gael i gyfranogwyr a gallant gael cymorth ariannol.

Gallai Clybiau Menter fod yn adnodd pwysig i gyfranogwyr y Lwfans Menter Newydd, gan roi'r cyfle iddynt gael cyngor gwerthfawr a rhwydweithio â chyfranogwyr eraill y Lwfans Menter Newydd a phobl fusnes leol. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr help a'r cyngor y gallent eu cynnig, bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn cyfeirio'r rheini sy'n cael y Lwfans Menter Newydd at eu clwb lleol.

## 7 Cynnal y Clwb Menter

Unwaith y bydd aelodau eich Clwb Menter wedi meithrin cydberthnasau, gallai arweinyddiaeth ddod o blith y grŵp. Efallai y bydd arweinwyr naturiol yn amlwg a gellir trosglwyddo'r arweinyddiaeth pan fydd aelodau yn gadael i ddechrau swyddi newydd. Rôl y trefnydd fyddai cynnal momentwm a chodi ymwybyddiaeth o'r Clwb Menter yn barhaus er mwyn parhau i ddenu aelodau newydd.

# Ble i gael rhagor o help

**Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu Clwb Menter yn eich ardal neu'n teimlo y gallech gyfrannu at ddatblygu un a'ch bod am gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**


**Dwyrain Lloegr**
**Vicky Wing, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
vicky.wing@jobcentreplus.gsi.gov.uk
01223 884730

**Dwyrain Canolbarth Lloegr**
**Richard Libecans, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
richard.libecans1@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0115 989 5960

**Llundain**
**Liz Cierebiej, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
liz.cierebiej@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0207 342 3854

**Gogledd Ddwyrain Lloegr**
**Dave Wright, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
dave.wright1@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0191 211 4206

**Gogledd Orllewin Lloegr**
**Margaret Woods, Regional ERM**
margaret.woods1@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0161 873 1241

**Yr Alban**
**Stephen McConnachie**
0141 636 8351
stephen.mcconnachie@jobcentreplus.gsi.gov.uk

**De Ddwyrain Lloegr**
**Lynda Jones, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
lynda.jones4@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0148 344 2550

**De Orllewin Lloegr**
**Phil Harrison, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
phil.w.harrison@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0117 945 6944

**Cymru**
**Huw Thomas, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
huw.thomas2@jobcentreplus.gsi.gov.uk
01443 484753

**Gorllewin Canolbarth Lloegr**
**Martin Bolt, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
martin.bolt1@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0121 452 5250

**Swydd Efrog a'r Humber**
**Alison Knight, Rheolwr Cysylltiadau Allanol Rhanbarthol**
alison.knight1@jobcentreplus.gsi.gov.uk
0113 307 8013



jobcentreplus
canolfanbydgwaith

Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

Cyhoeddwyd gan
yr Adran Gwaith a Phensiynau
Ionawr 2011
www.dwp.gov.uk/cymraeg